YSGOL GYNRADD CREIGIAU PRIMARY SCHOOL
ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR 2008 / 2009

1. NIFER AR Y GOFRESTR

Class 7 : (Mr. B. Evans)	17	(B6)
Class 6 : (Mrs. Y. Davies)	32	(B5)
Class 5 : (Mrs. J. Elliott)	20	(B4)
Class 4 : (Ms. S. Griffin / Mrs. R. Hussey)	30	(B3)
Class 3 : (Mrs. F. Willmott)	29	(B2)
Class 2 : (Mrs. L. Lambert	28	(B1)
Class 1 : (Mrs. C. Hurford)	28	(D)
Dosb. 6 : (Mrs. E. Evans)	27	(B6)
Dosb. 5 : (Mrs. M. Hughes / Ms. L. Devonald)	23	(B5)
Dosb. 4 : (Miss G. Roberts)	24	(B4)
Dosb. 3 : (Mrs. J. James)	18	(B3)
Dosb. 2 : (Mrs. H. Hughes)	30	(12B2 + 18B1)
Dosb. 1 : (Mrs. L. Thomas)	24	(D)
Nursery: (Miss H. Davies)	26	(25M2 + 1M1)
Meithrin: (Miss H. Davies)	26	(21M2 +5M1)

	382	
	---	

2. STAFFIO

(a) Athrawon

Bydd Mrs Judith James, Mrs Haulwen Hughes a Mr Brian Evans yn ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Rhyngddynt, maent wedi rhoi 63 mlynedd o wasanaeth i Ysgol Gynradd Creigiau. Mae pob un ohonynt wedi rhoi cyfraniad unigryw a helaeth i gymuned yr ysgol fel athrawon ac fel unigolion. Mae llaweroedd o ddisgyblion wedi bod yn ffodus i elwa ar eu sgiliau addysgu.

Yn ogystal, maent wedi bod yn esiampl dda i aelodau iau o'r staff, gan ddangos proffesiynoldeb, ymroddiad a hiwmor. Hoffai'r llywodraethwyr gofnodi eu dyled mawr a'u diolchgarwch i'r tri ohonynt, gan ddymuno'r gorau iddynt am ymddeoliad hir a hapus.

Yn anffodus bu Mrs. Mair Hughes yn absennol trwy gydol y flwyddyn oherwydd salwch. Dymunwn adferiad llwyr iddi.

Apwyntiwyd y canlynol i swyddi parhaol o fis Medi 2009:
Dirpwy Bennaeth – Mrs Delyth Kirkman B.A. L.R.A.M.
Yr Adran Saesneg – Mr Phillip Ivins B.D.S.
Yr Adran Gymraeg – Mrs Eleri Evans B.A.

Gwnaethpwyd apwyntiad dros dro o Fedi 2009 er mwyn llenwi dros Mrs. Mair Hughes, sef Mr. Lee Balbini B.A.

Mae'r llywodraethwyr wedi cytuno â chais Mrs Lowri Lambert am rannu swydd o Fedi 2009. Bydd hi'n rhannu gyda Mrs Kirstie Rees, sydd wedi gweithio ar ddau gyfnod mamolaeth yn yr ysgol ac sy'n cyflawni swydd dysgu yn yr ysgol ar hyn o bryd er mwyn rhyddhau athrawon ar gyfer eu cyfnod 'Cynllunio, Paratoi ac Asesu'. Bydd y ddwy athrawes yn gweithio am 5 sesiwn yr wythnos – Mrs Rees ar ddechrau'r wythnos a Mrs. Lambert ar ddiwedd yr wythnos.

(b) Staff nad ydynt yn addysgu
Mae Mrs. Tracey Cozens, Cynorthwyydd Dysgu Dosbarth, yn parhau i fod yn absennol yn dilyn salwch hirdymor. Mae'r llywodraethwyr yn dymuno adferiad buan iddi.

3. Y CWRICWLWM
(a) Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion 3-7 oed. Mae'n cyfuno'r blynyddoedd cynnar (dan 5 oed) a Chyfnod Sylfaen 1(5-7 oed)
Mae'n cael ei gyflwyno yn raddol:

Medi 2008:	Meithrin
Medi 2009:	Derbyn
Medi 2010:	Blwyddyn 1
Medi 2011:	Blwyddyn 2

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod pwyslais cynyddol ar ddysgu trwy brofiadau, ymwneud gweithredol a phwyslais ar sgiliau, agweddau cadarnhaol, hunan-barch, a gweithgareddau awyr agored, er enghraifft. Os hoffech wybodaeth pellach, ewch i www.wales.gov.uk/foundationphase

Cynhaliwyd nifer o gyrsiau ar gyfer staff yr ysgol, ynghyd a diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd i'r ysgol gyfan. Bu Mrs. Suzanne Sarjeant (Athrawes Ymgynghorol ar ran yr AALl) a Mrs. Lynfa Thomas (Cydlynydd Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol) yn siarad â rhieni am y mater.

(**b) Cwricwlwm 2008**
Mae pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi cael eu hadolygu a'u hailwampio. Bwriad y newidiadau yw adnabod y sgiliau angenrheidiol ar gyfer pob pwnc a'r ystod o gyd-destunau, cyfleoedd a gweithgareddau a ddefnyddir er mwyn datblygu a chymhwyso'r sgiliau hynny. Mae'r cynnwys wedi ei ddiweddaru er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain, ac er mwyn sicrhau addasrwydd i ddisgyblion ac athrawon. Mae'r cwricwlwm yn barhad o'r Cyfnod Sylfaen gyda phwyslais ar fframwaith sgiliau ar draws y cwricwlwm e.e. Meddwl, Cyfathrebu, TGCh a Rhif.

Er ein bod ni wedi gorfod cyflwyno newidiadau, nid yw'r newidiadau wedi bod mor fawr ag ysgolion eraill am ein bod ni wastad wedi dysgu trwy gyfrwng themâu tymhorol. Mae holl aelodau'r staff wedi mynychu cyrsiau. Bu'r ddau bennaeth adran yn gweithio gyda'u clwstwr ac yn adrodd nôl i weddill y staff, a bu hyn yn arbennig o fuddiol.

Mae'r cwricwlwm cynradd newydd i ysgolion cynradd yn cael ei gyflwyno yn y drefn isod:

Medi 2008 - Blynyddoedd 3, 4 a 5
Medi 2009 - Blwyddyn 6

Gan ddechrau o fis Medi 2009, bydd pob rhiant yn derbyn crynodeb byr o'r gweithgareddau a addysgir yn nosbarth eu plentyn yn ystod y tymor. (Bydd hyn yn digwydd ar draws yr ysgol o'r Feithrin i Fl6). Bydd hyn yn galluogi rhieni i fod yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ac yn eu galluogi i gefnogi gwaith yr ysgol yn y cartref.

4. ADEILADAU A'R AMGYLCHFYD
(a) Eleni mae'r gwaith canlynol wedi digwydd:
- Llawr y neuadd
- Carpedi yn ystafelloedd Dosbarth 4 , 5 & ystafell athrawon
- Gorchudd llawr i lyfrgell Saesneg y Babanod ac ystafell Ddosbarth 3
- Tri drws tân newydd

- Peiriannau puro aer yn y toiledau
- Ffaniau echdynnu yn yr ystafelloedd terapin
- Peintio ac Addurno

(b) O ganlyniad i'r archwiliad gweledol a wnaethpwyd y llynedd i adeilad yr ysgol (gweler Adroddiad Blynyddol y llynedd), mae'r llywodraethwyr wedi mynnu bod yr Awdurdod Addysg Lleol yn cwblhau archwiliad strwythurol llawn o holl ddosbarthiadau terapin yr ysgol. Dyma'r prif gasgliadau:

- Dosbarth 5 a Dosbarth 6 i gael eu cyfnewid am rhai newydd yn ystod y gwyliau haf, am eu bod wedi eu barnu i fod yn anniogel. (Gwnaethpwyd gwaith brys ar byst y tô i'w diogelu yn y cyfamser)

- Gwaith brys i lawr Dosbarth 4 & rhan o'r tô

- Gosodwyd griliau o dan lloriau pob terapin er mwyn hybu aer i gylchdroi er mwyn atal y pren rhan pydru

- Gosodwyd ffaniau echdynnu ym mhob terapin er mwyn atal cyddwysiad

Talwyd am yr uchod o goffrau'r Awdurdod Addysg Lleol.

(c) Bwriedir cwblhau'r gwaith canlynol yn ystod yr haf:
- Tô *pitsh* i rhan o'r prif adeilad (o goffrau'r AALl).
- Adnewyddu toiledau'r Feithrin a Dosbarth 1 & 2
- Peintio ac addurno gan y gofalwr a chrefftwr

5. CYLLIDEB

Mae Cyllideb 2009/10 wedi ei atodi

6. YR YSGOL YN Y GYMUNED

Mae'r llywodraethwyr yn teimlo'n gryf y dylai'r ysgol fod yn ysgol gymunedol.

Defnyddir yr ysgol yn gyson gan y cymdeithasau canlynol:
- Cantorion Creigiau
- Cyfeillion yr Ysgol
- *Police and Communities Together* (P.A.C.T.)
- Merched Y Wawr
- Clwb Ffrangeg
- Gwasanaethau Cerddoriaeth Caerdydd a'r Fro

Mae cymuned gyfan yr ysgol wedi ymwneud â'r gweithgareddau canlynol:
- Apêl Plant mewn Angen y B.B.C. – codwyd £892.80
- Tenovus – yn ystod tymor yr hydref codwyd cyfanswm o £900 gan y casgliad Cynhaeaf a'r cyngherddau Nadolig
- Diwrnod Trwyn Coch wedi codi £800
- Codwyd £110 gan yr Apêl y Pabi, a chodwyd £100 i Marie Curie gan yr Apêl Cennin Pedr
- Cefnogi addysg disgyblion yn Rwanda a'r Gambia
- Cyfrannwyd bwyd a nwyddau ymolchi i elusen Wallich Clifford
- Bu partneriaeth agos gyda'r heddlu e.e. P.C. Julia Smith (ein swyddog cyswllt ysgol)
- Gwahodd gweinidogion crefyddol i'r ysgol.
- Trafodwyd materion Diogelwch y Ffyrdd wrth i ni gymryd rhan yng nghwis y Sir
- Mae Cyfeillion yr Ysgol yn trefnu arddangosfa tân gwyllt llwyddiannus a ras hwyl y pentref

- Mae rhaglen lwyddiannus o oedolion yn gwirfoddoli i helpu'r ysgol. Mae hyn o werth amhrisiadwy ac mae'n cyfoethogi addysg y disgyblion
- Daw rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned sydd ag arbenigedd mewn meysydd arbennig i siarad â disgyblion yr ysgol

7. ASESU, COFNODI AC ADRODD

Mae crynodeb o adroddiadau asesu'r Cyfnodau Sylfaen wedi eu hatodi.

Caiff llawer o'r cofnodi a'r asesu ei wneud yn electronig gan ddefnyddio fersiwn wedi ei addasu o'r System Tracio Disgyblion Sirol.

Un o ddyletswyddau Mr. Phillip Ivins o Fedi fydd Asesu, Cofnodi ac Adrodd a dadansoddi data. Mrs. Irina Matthews sy'n gyfrifol am fwydo'r data i mewn i'r system.

8. CYRHAEDDIAD A CHYNHWYSIAD

Ethos yr ysgol yw bod gan pob plentyn ddawn i wneud rhywbeth. Mae hyn yn ffactor bwysig wrth ddatblygu hunan-barch a hunan hyder y disgyblion.

Mae llawer o strategaethau yn eu lle i helpu disgyblion sydd â phroblemau penodol ar unrhyw adeg yn eu gyrfa ysgol. Maent yn cynnwys sylw 1 i 1, athro/athrawes cefnogi yn gweithio tri diwrnod yr wythnos, cefnogaeth rhad gan *Dyslexia Action* sy'n gweithio yn yr ysgol ddeuddydd yr wythnos, a gwaith wedi ei wahaniaethu, er enghraifft.

Mae hi yr un mor bwysig bod anghenion y disgyblion Galluog a Thalentog hefyd yn cael eu cwrdd. Gwneir hyn trwy gyfrwng gwaith wedi ei wahaniaethu a thasgau penagored. Wrth weithio yn ôl thema tymhorol mae plant yn gallu gwneud gwaith ymchwil ychwanegol fesul grŵp neu yn unigol, yn yr ysgol neu yn y cartref. Ein bwriad yw annog plant i fod yn ddysgwyr annibynnol sy'n mwynhau'r broses o ddysgu.

Mae gweithgareddau fel y Sialens Fathemateg, cystadlaethau ysgrifennu creadigol a chlybiau ysgol (yn cynnwys ein clwb papur newydd) hefyd yn rhoi cyfle i ystod o ddisgyblion i ddefnyddio a datblygu eu talentau.

9. GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL

- Pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi a chriced
- Côr, cerddorfa, Urdd a chlwb papur newydd
- Garddio
- Ymweliadau penwythnos a chanolfan yr Urdd yn Llangrannog
- Cyfarfodydd Eco ysgol
- Cyfarfodydd y Cyngor Ysgol

Hoffai'r llywodraethwyr fynegi eu diolch i holl staff a gwirfoddolwyr yr ysgol am eu hymrwymiad a'u gwaith diflino er budd yr ysgol.

10. RHAI O LWYDDIANNAU'R YSGOL

- Gwobr TGCh gan Becta
- Grŵp Adrodd Ailiaith, Yr Ensemble Pres a Mabli Tudur yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
- Rhodri Davies-Hughes wedi ei ddewis i chwarae rygbi i Ysgolion Caerdydd
- Rhys Lewis oedd un o'r ugain disgybl a ddewiswyd i ymddangos ar Mastermind Cymru
- Cyrhaeddodd ein Tîm Diogelwch y Ffordd y rownd gynderfynol yn y gystadleuaeth a drefnwyd gan y Sir
- Gwahoddwyd côr yr ysgol i gymryd rhan yng Ngwasanaeth Carolau blynyddol Radio Wales yn Neuadd Dewi Sant
- Cafwyd ymateb a chanlyniadau gwych i'r Sialens Fathemateg

11. CYMDEITHAS RHIENI/ATHRAWON

Mae rôl hanfodol gan y Gymdeithas yng nghymuned yr ysgol. Mae'n helpu i ddarparu adnoddau buddiol ac yn cynorthwyo i dalu am gostau teithio ar gyfer ymweliadau addysgiadol, pontio a gweithgareddau chwaraeon.

Mae'r llwybr gweithgaredd ac ariannwyd ganddyn nhw a Creigiau 23 wedi bod yn boblogaidd iawn gyda'r plant. Maent wedi talu am fwrdd gwyn rhyngweithiol a thaflunydd ar gyfer Dosbarth 3. Maen nhw hefyd yn talu am dri chyfrifiadur a monitor a phedwar cluniadur a ddefnyddir yn y dosbarthiadau.

Hoffai'r llywodraethwyr gofnodi eu diolch i'r pwyllgor am eu gwaith caled a'u hamser yn mynychu cyfarfodydd ac yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau.

Ni fyddai'r adnoddau a nodwyd uchod wedi bod yn bosibl heb bwyllgor i drefnu gweithgareddau. Cofiwch wneud ymdrech i fynychu'r Cyfarfod Blynyddol ym mis Medi, a beth am gynnig eich enw i helpu'r Cyfeillion. Eich plant chi sy'n elwa ar eu canfed.

12. PRESENOLDEB

Cyfartaledd presenoldeb am y cyfnod o Fedi 20-08 – Mai 2009 yw:

	Sesiynau	**%**
Presenoldeb	102408	94.6
Absenoldebau a Awdurdodwyd	5308	4.9
Absenoldebau heb Awdurdod	505	0.5
Presenoldeb Posibl	108221	
Yn cynnwys:		
Gweithgarwch Addysgol a Gymeradwywyd	2	0.0
Cyrraedd yn hwyr cyn cau cofrestru	159	0.1
Cyrraedd yn hwyr ar ôl cau cofrestru	80	0.1
Absenoldebau heb esboniad	12	0

13. NEWIDIADAU I BROSBECTWS YR YSGOL

- Newidiadau staffio
- Newid yng nghyfrifoldeb rhai aelodau o staff
- Newid yn y drefn o dderbyn disgyblion fesul grwpiau i'r dosbarth derbyn
- Y Cwricwlwm newydd a gyflwynwyd ym Mlwyddyn 6 ym Medi 2009
- Cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i'r dosbarthiadau derbyn ym Medi 2009

14. Y CORFF LLYWODRAETHU

Ymddiswyddodd Mr. Lyn Morgan o'r corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn wedi 11 mlynedd fel aelod. Gwnaeth Lyn gyfraniad enfawr wrth gyfrannu i'r cyfarfodydd a'r is-bwyllgorau. Hoffem ddiolch iddo am ei wasanaeth i'r ysgol.

Apwyntiwyd tri rhiant lywodraethwr newydd sef, Mrs. Hailey Dunne, Mrs. Tracy Veale a Mr. Huw Roberts. Nid oedd angen etholiad am mai tri enw yn unig ddaeth i law.

15. DYDDIADAU TYMHORAU A GWYLIAU 2009 / 10

CADWCH Y DYDDIADAU HYN ER MWYN CYFEIRIO ATYNT YN Y DYFODOL!

Tymor	**Dechrau'r**	**Dechrau**	**Diwedd**	**Diwedd y Tymor**

	Tymor	Hanner Tymor	Hanner Tymor	
Hydref 2009	Dydd Mercher 02.09.09	Dydd Llun 26.10.09	Dydd Gwener 30.10.09	Dydd Mawrth 22.12.09
Gwanwyn 2010	Dydd Llun 04.01.10	Dydd Llun 15.02.10	Dydd Gwener 19.02.10	Dydd Gwener 26.03.10
Haf 2010	Dydd Llun 12.04.10	Dydd Llun 31.05.10	Dydd Gwener 04.06.10	Dydd Llun 19.07.10

Diwrnodau Hms: **Dydd Mercher 2il Medi 2009**
Dydd Llun 4ydd Ionawr 2010
Dydd Llun 12fed Ebrill 2010

Bydd **pedwar** dwirnod Hms ychwanegol yn ystod y flwyddyn – fe'ch hysbysir am y dyddiadau

Bydd yr ysgol ar gau **ddydd Llun 3ydd Mai 2010** ar gyfer Gŵyl y Banc Calan Mai

Peter Evans
Headteacher **03.06.09**